Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygu monitro blynyddol ar:

# Ysgol Caban Aur

## Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/09/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol y Caban Aur mewn lleoliad gwledig tua phedair milltir o arfordir dwyrain Ynys Môn. Mae'r ysgol wedi'i chofrestru ar gyfer hyd at bedwar disgybl rhwng 11 ac 16 oed sydd ag ystod o anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae pob un o'r disgyblion yn cael gofal gan eu hawdurdodau lleol. Mae tri disgybl yn yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn darparu addysg amser llawn gydag amserlen sy'n cynnwys Saesneg, mathemateg, gwyddoniaeth, hanes, celf a therapi celf. Mae disgyblion yn treulio un diwrnod llawn yr wythnos ar raglen addysg awyr agored sy'n cynnwys beicio, caiacio, canŵio a dringo. Mae'r ysgol hefyd yn darparu sesiynau addysg bersonol a chymdeithasol rheolaidd sy'n canolbwyntio ar baratoi'r rhai sy'n gadael gofal ar gyfer bywyd fel oedolyn.

Mae'r llety mewn byngalo modern sy'n darparu llety preswyl ar gyfer hyd at ddau o blant sy'n cael gofal. Mae ystafell ddosbarth ddynodedig yn y tŷ sy'n gyfforddus ac yn addas ar gyfer addysg. Mae gan y safle dir helaeth ac mae mewn lleoliad daearyddol da ar gyfer darparu gweithgareddau awyr agored.

Mae'r pennaeth wedi bod yn ei swydd er Chwefror 2012.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma yw cryfderau'r ysgol:**

- mae cynlluniau addysg unigol (CAUau) yn cynnwys targedau priodol ac fe gaiff disgyblion gyfleoedd rheolaidd i fyfyrio ar eu perfformiad yn erbyn y targedau hyn;
- ceir cynlluniau gwaith clir a chynlluniau gwersi gofalus sy'n cysylltu'n dda â thargedau'r CAU;
- mae cynlluniau gwersi yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu dysgu trwy gwblhau aseiniadau gwaith cartref;
- mae adnoddau da ar gyfer y cwricwlwm;
- mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol, gan gynnwys addysg rhyw a pherthynas, wedi'i theilwra'n dda iawn i fodloni anghenion unigol y disgyblion;
- mae disgyblion yn gwneud defnydd da o'r rhyngrwyd dan oruchwyliaeth i ymchwilio i wybodaeth; a
- phan nad yw disgyblion yn gallu rheoli eu hymddygiad, cânt eu hannog i fynd yn ôl i ddysgu cyn gynted ag y bo modd.

## Meysydd i'w datblygu

**Dyma yw meysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- mae athrawon yn nodi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd mewn gwersi Saesneg a mathemateg. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio ar gyfer y rhain a medrau eraill ar draws y cwricwlwm wedi eu datblygu ddigon;
- mae'r pennaeth yn gweithio'n agos gydag athrawon ac mae diwylliant o arsylwi cymheiriaid yn dod i'r amlwg. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson ac ni chaiff ansawdd yr addysgu ac effaith hyn ar ddeilliannau disgyblion ei arfarnu'n systematig a thrylwyr; ac
- mae arweinwyr wedi dechrau proses hunanarfarnu yn seiliedig ar ystod gyfyngedig o weithgareddau sicrhau ansawdd. Fodd bynnag, mae'r adroddiad hunanarfarnu yn ddisgrifiadol ar y cyfan ac nid yw'n nodi cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn glir.

## Argymhellion

A1 Cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, gweithio gyda phobl eraill a medrau meddwl ar draws y cwricwlwm

A2 Sicrhau bod rheolwyr yn monitro ansawdd yr addysgu a'i effaith ar y safonau a gyflawnir gan ddisgyblion

A3 Sicrhau bod hunanarfarnu yn cael ei lywio gan safbwyntiau ystod ehangach o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, staff ac awdurdodau lleoli

## Cynnydd wrth fynd i'r afael ag argymhellion o nodyn ymweliad neu adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: Gosod targedau addysgol mwy penodol i olrhain a mesur cynnydd disgyblion yn fwy effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan bob disgybl CAU gyda thargedau priodol ar gyfer gwella. Mae'r rhain yn cynnwys targedau ar gyfer presenoldeb, ymddygiad a chynnydd mewn pynciau. Mae athrawon a disgyblion yn defnyddio'r rhain yn effeithiol i olrhain cynnydd.

**Argymhelliad 2: Sicrhau bod disgyblion yn cael digon o gyfleoedd priodol i ennill cymwysterau mewn cyrsiau achrededig**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru i gyflwyno cyrsiau ASDAN ac mae disgyblion wedi dechrau'r unedau gwaith mathemateg a Saesneg. Mae disgyblion yn ennill cymwysterau mewn caiacio fel rhan o'r rhaglen addysg awyr agored. Mae un disgybl yn astudio celf TGAU.

**Argymhelliad 3: Sicrhau bod disgyblion yn cael arweiniad addas o ran gyrfaoedd**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gan yr ysgol gysylltiadau â Gyrfa Cymru erbyn hyn, sy'n mynd i'r ysgol ac yn cyfarfod â disgyblion yn rheolaidd o Flwyddyn 9 ymlaen.

**Argymhelliad 4: Cryfhau polisïau'r ysgol i gynnwys:**

- **cyfeiriad at ddiogelwch ar y rhyngrwyd yn y polisi diogelu; a**
- **chysylltiadau yn y polisi ymweliadau addysgol â pholisi'r sefydliad ar ymgynefino â cherbydau a'u defnyddio, a llawlyfr y gyrrwr**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Diweddarwyd polisïau'r ysgol i gynnwys cyfeiriadau at ddiogelwch ar y rhyngrwyd yn y polisi diogelu. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn cynnwys cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am e-ddiogelwch.

Diweddarwyd y polisi ymweliadau addysgol ac mae'n cysylltu'n dda â'r polisi ar ddefnyddio cerbydau.

**Argymhelliad 5: Ychwanegu nodyn yn y wybodaeth i rieni i sicrhau bod rhieni'n gwybod y gallent ofyn am gopïau o'r weithdrefn gwyno a pholisïau'r ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae gwybodaeth i rieni'n cynnwys cyfeiriad at y polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar gael sy'n ofynnol o fewn y rheoliadau.

**Argymhelliad 6: Dechrau cynnal hunanarfarnu a datblygu cynlluniau priodol ar gyfer gwella'r ysgol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae arweinwyr wedi rhoi ystod gyfyngedig o weithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith fel rhan o broses hunanarfarnu. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiad hunanarfarnu yn defnyddio gwybodaeth gan ystod eang o randdeiliaid ac mae'n ddisgrifiadol i raddau helaeth.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Ar yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddio ar gyfer y safon hon.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

- ar sail yr ymweliad hwn, nid oes unrhyw dystiolaeth i nodi nad yw’r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Caban Aur |
| **Rhif yr ysgol** | 660/6028 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 7 ac 8 Gorffennaf |
| **Perchennog** | Cartref Plant Afon Goch |
| **Staff** | Pennaeth, 2 athro |
| **Nifer y disgyblion** | 3 |
| **Darpariaeth** | Dydd |
| **Math o angen addysgol arbennig (AAA) y mae’r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | Ddim yn berthnasol |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | Ddim yn berthnasol |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | Arolygiad o gartref plant cysylltiedig |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| **Arolygydd Cofnodol** | Anthony Mulcahy |
| **Arolygydd Tîm** | Claire Yardley |